

Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Estynnwn ein cydymdeimlad heddiw â nifer o'n haelodau sydd mewn profedigaeth. Cofiw'n yn arbennig am Brenda Evans (Llansannan) a Beryl Williams (Llansannan) a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Emyr. Hefyd, estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Philip Owen (Llanefydd) a gweddiill y teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Dilys. Yr un mor ddiffuant hefyd yw ein cydymdeimlad â Miriam a Meilir Williams (Saron) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli eu tad, Melfyn. Gweddiwn y pob un ohonoch yn profi gofal a chariad Duw yn eich amgylchynu dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.

Anfonwn ein cofion hefyd at Elwy Owen (Llanefydd) a Richard Jones (Cefn Berain) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd, a hefyd Dilys Jones (Nantglyn) sy'n parhau i gael gofal yn yr Inffirmari. Treuliodd Eurgain Pierce (Llanefydd) rai dyddiau yn yr ysbyty hefyd ond mae'n dda deall ei bod adref erbyn hyn. Mae eraill o'n plith hefyd wedi cael amrywiol driniaethau. Diolchwn am bob gofal yr ydych oll yn ei dderbyn a hyderwn y byddwch yn teimlo'n well yn fuan iawn. Rydym yn eich cyflwyno chi, ac eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan ofyn Iddo gysgodi drosoch, ac i wyllo dros eich anwyliaid yr un modd.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Myra Davies (Saron) sydd newydd ddatlu pen-blwydd arbennig!

Coleg y Bala

⇒ **Chwalfa Chwefror** (i blant 8 – 11 oed): **Chwefror 18^{fed} – 20^{fed}**. Mae'r cwrs yma'n llawn erbyn hyn.

⇒ **Cwrs Ieuencid** (i bobl ifanc 11-14 oed): **Chwefror 25^{ain} – 27^{ain}**. Penwythnos o weithgareddau, chwaraeon, crefft, *chillio* gyda ffrindiau, *take away*, storiâu o'r Beibl, a thrip i SC2, Rhyl. Mwy o fanylion isod. Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](#).

Y gost yw £66 yr un (neu £33 i'r ail neu drydydd plentyn o'r un teulu), ac mae'n cynnwys y llety, bwyd a'r holl weithgareddau. **Cofiwch bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob unigolyn.** Os nad yw'n bosibl i chi archebu arlein, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (23^{ain}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 13 Chwefror 2022

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Wn i ddim sawl gwaith ydw i wedi pasio'r adeiladau a'r tir ar gyrion Penrhyn-coch, ond bob tro y byddaf yn gwneud y daith o ogledd Cymru i Aberystwyth byddaf yn pendroni beth yn union maent yn ei wneud yno? Sôn am y ganolfan oedd yn cael ei hadnabod fel Bridfa Blanhigion Cymru ydw i, sefydliad sydd erbyn hyn yn rhan o Athrofa Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig Prifysgol Aberystwyth. Wedi'r pendroni, dyma fynd ati i ddarllen ychydig ar y we, a dysgu am hanes y ganolfan yn cynnal gwaith ymchwil ers dros ganrif bellach. Er nad ydw i'n deall y manylion yn iawn, mae'n debyg bod gwyddonwyr dros y degawdau wedi gweithio ar ffyrdd i sicrhau gwair a phlanhigion addas ar gyfer amaethu – cnydau sy'n cynhyrchu'n helaeth ac yn gallu gwrthsefyll sychder ac amrywiol glfeydau.

Ac wrth ystyried cyfraniad arbennig y gwyddonwyr hyn yn creu cynnyrch addas ar gyfer sefyllfa benodol, meddyliais mor eithriadol o addas yw Iesu Grist i fod yn Waredwr y byd. (Ioan 4:42) Wrth gwrs mae'n rhaid pwysleisio nad yw Crist wedi cael ei greu gan mai Mab tragwyddol ydyw, yn bodoli ers cyn creu'r bydysawd gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân. Ond wrth i ni ddarllen y Beibl, mor hyfryd yw sylweddoli mai cariad y Drindod sanctaidd olygodd bod Mab Duw wedi gwisgo cnawd a dod i'n byd wrth iddo gael ei eni'n fab i Mair.

A phwy sy'n cymharu â'n Harglwydd Iesu Grist? Yn ein gwendid, Iesu yw'r unig un sy'n deall ein sefyllfa'n iawn (Hebreaid 4:15), ac sy'n ein hannog i ddod ato Ef i brofi gorffwys o dan ei iau (Mathew 11:28-29). Iesu'n unig sydd wedi talu'r pris am ein hanufudd-dod a'n gwrthryfel wrth farw ar y Groes, fel bod unrhyw bechadur euog, o droi at Grist mewn ffydd yn gallu pwyso ar yr addewid: '*Ond dydy'r rhai sy'n perthyn i'r Meseia Iesu ddim yn mynd i gael eu cosbi!*' (Rhufeiniaid 8:1 beibl.net)

Hyd yn oed yn ein hansicrwydd a'n dryswch, Iesu yw'n pencampwr a'n hyfforddwr (Hebreaid 12:2), a'r Athro sydd wedi rhoi Ei Ysbryd i'n harwain yn yr holl wirionedd. (Ioan 16:13) A phan fo breuder bywyd yn frawychus o amlwg, Iesu yw'r atgyfodiad a'r bywyd, yr un sydd wedi concro marwolaeth a sicrhau i'w bobl fywyd tragwyddol. (Ioan 11:25-26)

Dy gamweddau a ddilea, pwy fel efe!

Dy elynion oll, fe'u maedda, pwy fel efe!

Cei bob bendith iti'n feddiant,

hedd a chariad a'th ddilynant,

Crist a'th arwain i ogoniant, pwy fel efe! (Pedr Fardd)



Cyhoeddiadau'r Fro

Gair i'ch atgoffa bod rhaid i bawb gydymffurfio â chanllawiau COVID ac i ddilyn y canllawiau sydd mewn lle ymhob capel i sicrhau diogelwch pawb fydd yno. Ni ddylai unrhyw un fynychu'r addoliad sydd unai yn dioddef hefo'r feirws neu ag unrhyw un o'r symptomau, neu sydd i fod i ynysu ar adeg yr addoliad, a gofynnir yn garedig i'r holl fynychwyr ddod â mygydau a'u gwisgo y tu mewn i'r adeilad, os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Chwefror 13^{eg}

- **Oedfa yn Llansannan am 9:30 ac yn Llanfair am 11:00** o dan arweiniad Rhodri. Bydd **Ysgol Sul y plant** yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llansannan.
- **Oedfa yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00** o dan arweiniad Mr Alun Jones.
- **Oedfa yn Henllan am 9:30 ac yn Llanefydd am 11:00** o dan arweiniad Mr Celfyn Williams.
- **Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:30.**
- **Sgwrs a Gweddi ar ZOOM** am 6:00 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb. (Ewch i wefan www.eglwysibroaled.com a chlicio ar y llun 'Sgwrs a Gweddi' ar y dudalen flaen i ymuno.)

★ SYLWER ★: Ni fydd 'Gwreiddiau' yn cael ei gynnal y Sul hwn.

Nos Lun, Chwefror 14^{eg} a Pnawn Gwener, Chwefror 18^{fed}

- **'Gweddi'r Arglwydd'** – Yr ail sesiwn mewn cyfres o bump astudiaeth Feiblaidd o dan arweiniad gweithwyr Dorcas. Gellir ymuno (ar ZOOM) naill ai ar nos Lun am 7:00 yr hwyr neu ar brynhawn Gwener am 1:30. (Manylion mewngofnodi: <https://us02web.zoom.us/j/83243383071> neu deialwch 0208 080 6592 i ymuno ar y ffôn. Meeting ID: 832 4338 3071) Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.

Dydd Sul, Chwefror 20^{fed}

- **Oedfa yn Groes am 9:30 ac yng Nghefn Berain am 11:00** o dan arweiniad Mr Dewi Williams.
- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog am 9:30 ac yn Llansannan am 11:00** o dan arweiniad y Parch. Aron Treharne. Bydd **Ysgol Sul y plant** yn cydreddeg â'r gwasanaeth yn Llansannan.

- ★ **SYLWER: Bydd Oedfa'r Fro yn ail-gychwyn yn Llansannan am 6:00.** ★
Arweinir yr oedfa gan Rhodri a bydd y Parch. Aron Treharne, Caerfyrddin yn pregethu. Er mwyn hwyluso'r trefniadau, gofynnwn i chi roi eich enwau i Mair (manylion cysylltu ar y dudalen gefn) erbyn y nos Wener blaenorol, os gwelwch yn dda.

Dydd Sul, Chwefror 27^{ain}

- **Oedfa yn Llanfair am 9:30 ac yn Llansannan am 11:00** o dan arweiniad y Parch. David Owens.
- **Oedfa yn Llanefydd am 9:30 ac yn Henllan am 11:00** o dan arweiniad Rhodri.
- **Oedfa 'Dydd Gweddi'r Byd' yn Saron am 10:00 ac yn Nantglyn am 2:00.**
- **'Gwreiddiau'** – Mae croeso i ni ymuno gyda Bro Dinbych ar gyfer amser o addoliad yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y prynhawn. Mae'n addas i bob oed, ac mae darpariaeth dwyieithog. Archebwch le trwy glicio ar y ddolen [yma](#) neu cysylltwch â Mair.

Ysgol Haf y Weinidogaeth Iacháu

23-26 Mai 2022

yng Nghanolfan Cefn Lea, Dolfor, Y Drenewydd, Powys, SY16 4AJ

Mae'r Weinidogaeth Iacháu yn cyffwrdd pob rhan o'n bywyd – ein perthynas ni â Duw, â ni ein hunain, ac â'r byd o'n cwmpas. Mae'n gweithio mewn harmoni gyda'r proffesiwn meddygol, gyda nyrsys, a'r sawl sydd yn ymwneud â gofal dros gleifion ac mae'n cydnabod bod Duw yn defnyddio sawl dull i'n hiacháu. Mae'n ymwneud â phob rhan ohonom – yn gorff, meddwl ac ysbryd, ac yn gyfrwng i ddod â thangnefedd a harmoni i fyd anghenus.

Mae gweithgarwch y Weinidogaeth Iacháu yn cynnwys cynnal Ysgol Haf flynyddol sy'n cynnwys gwasanaeth bendithio/ iacháu, gwaith mewn grwpiau bach, addoliad, a chyfle i wrando ar siaradwr gwadd yn ymdrin â thema 'Iacháu'.

Tâl llawn (os yn rhannu ystafell) = £150; Tâl llawn (ystafell sengl) = £175; Tâl dyddiol sy'n cynnwys y prydau bwyd i gyd, coffi/te a chostau gweinyddol = Llun: £25, Mawrth: £40, Mercher: £40, Iau: £25. Ni sicrhair lle oni fydd y tâl llawn (llety neu ddyddiol) gan Nerys Rowlands, Ysgrifenyddes y Weinidogaeth Iacháu **erbyn Ebrill 24ain**. Dalier sylw: mae croeso cynnes i bob un ymuno yn yr Ysgol Haf ac mae cymorth ariannol ar gael tuag at y gost o'i mynychu. Os hoffech fynychu'r Ysgol Haf eleni, cysylltwch â Mair i gael copi o'r rhaglen a ffurflen gofrestru.